

Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drafft.

Beth yw eich barn ar y Bil drafft? Amlinellwch isod unrhyw bryderon sydd gennych, neu feysydd y credwch y dylai'r Pwyllgor archwilio ymhellach cyn i'r Bil gael ei gyflwyno yn ffurfiol.

1. Sylwadau Cyffredinol

1.1. Mae'n destun siom nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth ddigonol o ran sicrhau hawliau i'r Gymraeg yn y prosesau a strwythurau a amlinellir yn y Bil a'r Cod drafft.

1.2. Nid yw'r dogfennau yn cydnabod bod problemau systemig o ran sicrhau darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y Gymraeg. Nid ydynt ychwaith yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cymaint â phosib o'r prosesau yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â dewis iaith plant, pobl ifanc a/neu rieni. Nid ydynt felly yn cynnig unrhyw ffordd o fynd i'r afael â'r anawsterau a'r gwendidau hyn.

1.3. Rhoddir pwyslais yn y Cod, yr Asesiad Effaith a'r Memorandwm Esboniadol ar gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg fel ffordd o barchu hawliau i'r Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r Safonau wedi cael eu gosod ar ysgolion unigol ac nid oes datganiad o fwriad gan Gomisiynydd y Gymraeg na'r Llywodraeth i'w gosod arnynt. Nid yw'n glir ychwaith a fydd y Tribiwnlys Addysg Cymru yn dod o dan y Safonau ai peidio.

1.4. Mae'r dadansoddiad a gynigir ar dudalen 11 yr Asesiad Effaith yn anghywir felly wrth iddo honni: *"Yng nghyd-destun Anghenion Dysgu Ychwanegol, bydd yn rhaid i'r cyrff perthnasol sicrhau bod eu gwasanaethau yn cael eu darparu'n ddwyieithog yn unol â Safonau perthnasol y Gymraeg, yn ôl anghenion a dymuniadau'r disgybl a'i riant."* Yn ogystal, mae hawliau plant a phobl ifanc o dan y Safonau yn amrywio o sir i sir, felly nid oes sicrwydd y bydd cysondeb o ran y ddarpariaeth Gymraeg ychwaith.

1.5. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cynnwys rhestr o bwyntiau 'mae'n debygol y bydd y Cod drafft yn cynnwys' mewn perthynas â'r Gymraeg, ond ar y cyfan nid yw'r pwyntiau hyn yn ymddangos yn y fersiwn drafft o'r Cod a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Bil.

1.6. Credwn yn gryf y dylai bod hawl gan unrhyw blentyn, person ifanc a'u teuluoedd i dderbyn y ddarpariaeth a'r gwasanaeth priodol drwy'r Gymraeg. Felly, dylid rhoi hawl i ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar wyneb y Mesur arfaethedig. Yn ogystal, mae angen eglurder yn y Cod Ymarfer ynghylch gofynion statudol mewn perthynas â'r Gymraeg - gan gynnwys yr hawl i drafod y broses yn y Gymraeg, a'r hawl i wneud apêl yn y Gymraeg. Dylai unrhyw ganllawiau amlinellu'r hyn a ddisgwylir o ran arfer da mewn perthynas â'r Gymraeg.

2. Sylwadau ar y Bil

2.1 Nid oes cyfeiriad at ddarparu'r gwasanaethau a phrosesau a amlinellir yn y Bil yn Gymraeg o gwbl.

2.2. Dylai fod hawl gyffredinol i blant, pobl ifanc a'u rhieni dderbyn yr holl wasanaethau hyn yn Gymraeg. Credwn y dylai'r Bil ei hun gynnwys datganiad diamwys sy'n nodi'r disgwyliadau o ran darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg – o ran y ddarpariaeth addysgol yn ogystal â'r gallu i ymwneud â'r broses gyfan. Dylai'r Cod fynd i fanylder ynghylch y dyletswyddau, y disgwyliadau a'r ymrwymadau ar lefel ymarferol.

2.3. Dylid rhestru Comisiynydd y Gymraeg yn adran 5(1) fel corff y dylid ymgynghori â fe ynghylch y Cod.

2.4. Awgrymwn y dylid ychwanegu cymal yn y Bil sy'n sefydlu hawliau plant, pobl ifanc a rhieni i'r Gymraeg i'r gwasanaethau, gwybodaeth a chyngor a ddarparwyd ar eu cyfer yn y Bil. Gellid edrych ar adrannau 6 a 7 i fewnosod cymalau o'r fath.

- 2.5. Yn adran 31 y Bil, dylid diwygio'r gofynion cofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol yng Nghymru a dylid nodi yn y gofrestr drwy gyfrwng pa ieithoedd y cynigir y ddarpariaeth.

2.6. Mae adrannau 46 a 47 o'r Bil yn sefydlu Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Swyddogion Meddygol neu Glinigol Dynodedig, er mwyn bodloni hawliau iaith pobl ifanc a rhieni, bydd rhaid i'r Gymraeg fod yn sgil hanfodol ar gyfer y swyddi hynny.

2.7. Dylid sicrhau bod aelodau'r Tribiwnlys a sefydlir yn Rhan 4 y Bil yn cynnwys digon o siaradwyr Cymraeg fel bod modd cynnal gwrandawriadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai fod hawl i apelïadau gael eu clywed yn Gymraeg yn ogystal.

3. Sylwadau ar y Cod

3.1. Mae Safonau'r Gymraeg yn cael eu crybwyll ym mharagraff 14 o'r Cod, ond maent yn anwybyddu'r ffaith nad oes bwriad gan y Llywodraeth na'r Comisiynydd i gynnwys ysgolion unigol o dan eu darpariaethau.

3.2. Ym mhennod 2 y Cod, credwn y dylai'r hawl i gael darpariaeth Cymraeg ac ymdrin â'r prosesau drwy gyfrwng y Gymraeg gael ei nodi yn yr adran Egwyddorion. Dylai bod cyfeiriadau yn y cyd-destun hwn at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (gofynion ieithyddol), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru, ac Iaith Fyw: Iaith Byw (Strategaeth iaith Llywodraeth Cymru).

3.3. Mae'r diffyg sôn am faterion y Gymraeg ym mhennod 4 y ddogfen yn syfrdanol. Yn wir, mae holl sôn yn y Cod am ddarparu gwybodaeth y gallai plant, pobl ifanc a rheini ei ddeall yn anwybyddu'n llwyr y ffaith bod nifer o blant a phobl ifanc yn uniaith Gymraeg, yn derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg, neu'n llawer mwy cyfforddus yn cyfathrebu yn yr iaith honno.

3.4. Ymhellach, ym mhennod 5 y Cod, dylid nodi bod disgwyl i'r wybodaeth a chyngor y cyfeirir atynt fod ar gael yn y Gymraeg. Nid yw Safon 40 wedi ei osod ar bob awdurdod lleol, felly nid yw'n glir y bydd y Safonau yn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei ddarparu yn Gymraeg fel arall. Ym mharagraff 91, dylai fod sôn am gyfrifoldeb yr awdurdod i sicrhau bod darparwyr allanol yn darparu eu holl wasanaethau yn Gymraeg.

3.5. Ym mhennod 10 y Cod, dywedir y dylid nodi 'the language spoken at home by the child or young person'; yn lle, dylid nodi 'languages' fel bod modd casglu gwybodaeth gyflawn

am sefyllfa ieithyddol y cartref. Ymhellach, nid oes unrhyw sôn yma am (a) cyfrwng iaith addysg y plentyn/person ifanc (b) ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg yr hoffai'r plentyn/person ifanc a'i rieni ymdrin â'r broses Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r wybodaeth hon yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod modd bodloni anghenion iaith y plentyn neu berson ifanc.

-
- 3.6. Ym mhennod 11, dylid nodi dewis iaith yn y wybodaeth bywgraffyddol sylfaenol yn enwedig gan ystyried y bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu rhwng nifer o asiantaethau. Dylid cyfeirio'n benodol at y Gymraeg, ac at yr angen i gymryd i ystyriaeth a pharchu dewisiadau ieithyddol yr unigolion dan sylw, yn y bennod hon.
-
- 3.7. Dylai paragraff 355 nodi fod y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i 'hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.'
- 3.8. Ym mhennod 15, paragraff 373, y Cod, dylai cyfrwng iaith y ddarpariaeth fod yn un o'r ystyriaethau o ran a yw'r addysg a ddarperir yn addas.
- 3.9. Ym mhenodau 20 a 21 y Cod, dylid cyfeirio'n benodol at yr hawl i gael ymwneud â phrosesau datrys anghydfodau ac apeliadau at y Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyfeiriadau at 'suitable format' a 'plain language', ond dim un cyfeiriad at gyfrwng iaith y prosesau.

Nodwch isod eich prif bryderon mewn perthynas â'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gadewch i ni wybod a yw'r Bil, yn eich barn chi, yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, neu a oes angen rhagor o waith.

Gweler uchod.

A oes gennych unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech eu codi na soniwyd amdanynt uchod?

